

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru

Mehfin 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilo

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddArchwilo@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddArchwilo](https://twitter.com/SeneddArchwilo)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
**Rheoli perygl llifogydd ac erydu
arfordirol yng Nghymru**

Mehafin 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Nick Ramsay AC (Cadeirydd)
Ceidwadwyr Cymreig
Monmouth



Neil McEvoy AC
Plaid Cymru
Canol De Cymru



Mohammad Asghar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru
Islwyn



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Lee Waters AC
Llafur Cymru
Llanelli



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	6
01. Cyflwyniad.....	8
02. Rolau a Chyfrifoldebau.....	9
03. Dealltwriaeth o Berygl	17
04. Capasiti ac Adnoddau ar gyfer Llifogydd	24
Atodiad – Tystion.....	30

Rhagair y Cadeirydd

Y thema reolaidd drwy gydol y dystiolaeth a roddwyd i'r ymchwiliad hwn oedd diffyg arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru mewn nifer o feysydd allweddol. Er bod llawer o bobl ardderchog yn cyflawni ar lawr gwlad, ac ysbryd gwydn iawn ymhlith y rheini sy'n wynebu'r gwaethaf o'r problemau hyn, nid yw hyn yn esgusodi'r diffyg cyfeiriad ac arweinyddiaeth a ddarparwyd hyd yma. Er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau angenrheidiol yn cael eu gwneud ynghylch adlinio a reolir a rheoli perygl, mae'n hanfodol bod arweinyddiaeth yn cael ei ddarparu.

Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn herio Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o ran sut y mae'n ymdrin â llifogydd ac erydu arfordirol a rheoli perygl. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn mynd ati i sicrhau bod y pum ffordd o weithio o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy - yn yr hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu, cymryd rhan - yn cael eu croesawu, ac y mae llawer ohono yn allweddol i reoli perygl llifogydd. Clywsom dystiolaeth drwy gydol yr ymchwiliad hwn ynghylch sut y mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd golwg tymor hwy o ran cyllid, yn enwedig ar gyfer refeniw ac o ran penderfyniadau anodd fel cilio a reolir.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu ei Strategaeth Genedlaethol 2011 ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn 2017-18, ac rydym yn gobeithio y bydd yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, ochr yn ochr â rhai'r Archwilydd Cyffredinol, yn llywio'r adolygiad hwnnw a bod yn hwb ymlaen ar gyfer y newid sydd ei angen.

Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar ôl yr etholiadau Llywodraeth Leol ar 4 Mai 2017. Gan fod llawer o'r materion yn berthnasol i Awdurdodau Lleol, roeddem yn awyddus i roi cyfle llawn i'r Awdurdodau newydd ystyried ein hargymhellion. Yn dilyn y cyhoeddiad ar 18 Ebrill 2017 y byddai Etholiad Cyffredinol y DU yn cael ei gynnal ar 8 Mehefin 2017, cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r dyddiad cyhoeddi tan ar ôl yr etholiad hwn.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth ac a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn.

Nick Ramsay
Cadeirydd y Pwyllgor

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir yn y strategaeth genedlaethol y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol er mwyn sicrhau ei bod yn glir pwy sy'n gyfrifol am gyflawni pob agwedd ar y strategaeth. Tudalen 11

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliant i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i roi rôl oruchwylio ar fonitro'r strategaeth genedlaethol i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol neu gorff arall yn hytrach na dim ond i Gyfoeth Naturiol Cymru. Tudalen 12

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gan Lywodraeth Cymru ddulliau ar waith i roi sicrwydd bod atebolrwydd ar gyfer pob rhan o'r arfordir, ac ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Traethlin, yn glir a bod y wybodaeth hon yn cael ei chyfleu i bawb sydd â chyfrifoldeb am y morlin. Tudalen 14

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid cyflawni i ddatblygu un pwynt gwybodaeth ar gyfer ymwybyddiaeth o lifogydd, fel 'microwefan' neu wefan, sy'n cynnwys manylion clir am rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ymwybyddiaeth o lifogydd..... Tudalen 14

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol ar sail ranbarthol ac yn cyflwyno adroddiad erbyn mis Ionawr 2018. Tudalen 16

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, o fewn y 12 i 24 mis nesaf, lunio safbwynt polisi sy'n nodi ystod o opsiynau ar gyfer adlinio a reolir. Tudalen 20

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol syml, sy'n hawdd ei ddeall, ac yn sicrhau y caiff ei weithredu, sy'n golygu bod yr holl beryglon o ran llifogydd ac erydu yn cael eu hystyried gyda'i gilydd fel rhestr wedi'i blaenoriaethu. Tudalen 23

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir sut y bydd yn cydbwysu buddsoddiad mewn modd effeithiol er mwyn cefnogi'r gwaith o gynnal buddsoddiad cyfalaf ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y dyfodol. Tudalen 26

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru, yn nodi'r cynlluniau ar gyfer ariannu prosiectau rheoli perygl arfordirol ar ôl 2021. Tudalen 27

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad bob dwy flynedd er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r lefelau staffio angenrheidiol ar gael o fewn Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Awdurdodau Lleol i gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Genedlaethol. Tudalen 29

01. Cyflwyniad

1. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) adroddiad ar 21 Gorffennaf 2016 ar archwilio Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru.¹ Mae'r adroddiad yn ystyried y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Canfu'r adroddiad fod buddsoddiad diweddar wedi gwella ac wedi golygu bod modd gwneud gwelliannau o ran amddiffyn yr arfordir a chyflwyno rhai manteision ehangach. Fodd bynnag, canfu hefyd fod y newid o ran gwella'r modd y rheolir y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol wedi digwydd yn arafach na'r disgwyl a daeth i'r casgliad fod angen rhagor o welliannau i fynd i'r afael â materion o ran capasiti, cynllunio ar gyfer y tymor hwy a blaenoriaethu gwariant i'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.
2. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dilyn adroddiad 2009 Swyddfa Archwilio Cymru ar 'Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru'² ac adroddiad 2012 gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd³ a gyhoeddwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.
3. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ym mis Tachwedd 2011. Caiff y strategaeth ei hadolygu yn 2017-18.
4. Roedd y stormydd yn ystod gaeaf 2013-14, a'r difrod a achoswyd gan y digwyddiadau hynny, yn amlygu pa mor agored i lifogydd ac erydu y mae rhai cymunedau arfordirol, busnesau a seilwaith. Arweiniodd hyn at Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru. Archwiliodd yr Adolygiad effeithiau llifogydd y gaeaf yn ystod mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014 ledled Cymru mewn dau gam, ac fe'i cynhaliwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y cyfnodau a'r argymhellion o'r adolygiad hwn wedi'u nodi yn atodiad 2 o adroddiad⁴ yr Archwilydd Cyffredinol a darparwyd diweddariad ar y cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn yr Adolygiad o Lifogydd Arfordirol a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2016.⁵
5. Trafododd y Pwyllgor ymateb⁶ Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi 2016, ac ysgrifennodd yn wreiddiol at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad ar nifer o bwyntiau o bryder. Ar ôl cael ymateb Llywodraeth Cymru, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i archwilio'r materion hyn yn fanylach.

¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Gorffennaf 2016

² Swyddfa Archwilio Cymru, [Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru](#), Hydref 2009

³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, [Ymchwiliad i ddiogelu'r arfordir yng Nghymru](#), Hydref 2012

⁴ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, atodiad 2, tudalen 55, Gorffennaf 2016

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: PAC(5)-12-16 Papur 1, 12 Rhagfyr 2016

⁶ [Ymateb Llywodraeth Cymru](#) i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Medi 2016

02. Rolau a Chyfrifoldebau

Egluro'r Rolau a'r Cyfrifoldebau

6. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer llifogydd ac erydu arfordirol, fel y nodir isod. Ceir disgrifiad eang o'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn hefyd yn strategaeth genedlaethol.⁷

Llywodraeth Cymru

Cyfrifoldeb cyffredinol am lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru gan gynnwys cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol a sicrhau cydymffurfiaid â gweithrediad mesurau i fodloni amcanion yn y Strategaeth.

Cyfoeth Naturiol Cymru

- Trosolwg strategol ar lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru gan gynnwys:
 - darparu cyngor a chymorth technegol i Awdurdodau Rheoli Risg eraill;
 - monitro ac adrodd ar gynnydd gweithrediad y Strategaeth Genedlaethol; a
 - chyfrifoldeb gweithredol am lifogydd o brif afonydd a'r môr.

Awdurdodau Rheoli Risg

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dwr 2010 yn nodi cyrff sydd â chyfrifoldebau penodol am reoli perygl llifogydd fel 'Awdurdodau Rheoli Risg Cymru'. Ceir 28 Awdurdod Rheoli Risg yng Nghymru, gan gynnwys:

- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- 22 cyngor yng Nghymru (a ddisgrifir fel
- Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol); a
- phum cwmni dwr sy'n darparu gwasanaethau dwr a charthffosiaeth i Gymru.

Cynghorau

- Cyfrifoldeb gweithredol am erydu arfordirol o ddwr wyneb, dwr daear a chyrsgiau dwr cyffredin (cyrsiau dwr nad ydynt wedi'u neilltuo fel prif afon).
- Mae rhai cynghorau hefyd wedi eu neilltuo'n awdurdodau rheoli perygl llifogydd o dan Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949 sy'n rhoi pwerau iddynt amddiffyn y tir rhag erydiad neu enciliad gan y môr. O dan y Ddeddf, caiff cynghorau wneud gwaith ar lifogydd môr ac erydu arfordirol pan fyddant yn y sefyllfa orau i wneud hynny, gyda chymeradwyaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hwn yn bwer ond nid yw'n ddyletswydd.

Cwmnïau dŵr

Cyfrifoldeb gweithredol am gyrsiau dwr cyffredin, draenio a rheoli lefel dwr.

Grwpiau Arfordirol

Grwpiau gwirfoddol yw grwpiau arfordirol sy'n cynnwys cynghorau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill â chyfrifoldebau arfordirol. Mae'r grwpiau arfordirol yn gyfrifol am greu, gweithredu a monitro cynnydd o ran y Cynlluniau Rheoli Traethlin. Maent hefyd yn ceisio rhoi cyngor ar faterion arfordirol, rhannu arfer da a nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd. Ceir pum grwp arfordirol sy'n gweithredu yng Nghymru: Aber Afon Hafren, Abertawe a Bae Caerfyrddin, Bae Ceredigion, Ynys Enlli, a Bae Lerpwl.

Mae gan gyrff eraill swyddogaeth yn y gwaith o reoli llifogydd ac erydu arfordirol hefyd, gan gynnwys darparwyr seilwaith fel Network Rail a thirfeddianwyr fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ystadau'r Goron a allai fod yn berchen ar adeiledd sy'n gweithredu fel amddiffynfeydd rhag llifogydd ar hyn o bryd. Mae gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gyfrifoldebau cynllunio penodol hefyd, a hysbysir gan bolisiau rheoli llifogydd ac erydu arfordirol.

⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Ffigur 1, Gorffennaf 2016

7. Canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod rhai partneriaid yn parhau i fod yn ansicr ynghylch cyfrifoldebau priodol Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ac ynghylch y gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau dros lifogydd ac erydu. Yn benodol, canfu fod cyfrifoldeb cyffredinol am erydu arfordirol yn llai clir ar ôl rhoi Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ar waith.⁸

8. Un o'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol oedd y dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl oruchwyllo Cyfoeth Naturiol Cymru a sut y mae'n wahanol i rôl Llywodraeth Cymru o ran rheoli perfformiad sefydliadau partner. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at brosiect a arweinir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i egluro rolau a chyfrifoldebau o fewn Cynllun Cyflenwi yr Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru, gan nodi y bydd yr adolygiad o'r strategaeth genedlaethol yn rhoi cyfle i egluro rolau a chyfrifoldebau ymhellach.⁹

9. Mae diweddariad ar Gynllun Cyflenwi yr Adolygiad o Lifogydd Arfordirol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn ei hymateb ysgrifenedig gychwynnol, yn crynhoi'r gwaith prosiect a gynhaliwyd ar rolau a chyfrifoldebau (argymhelliad 38 yn y cynllun hwnnw). Mae'r diweddariad yn nodi y byddai egluro rolau a chyfrifoldebau ar yr arfordir yn ddefnyddiol ond hefyd nad yw'n ymddangos bod maint y materion a'r ymholiadau presennol ymhlith awdurdodau rheoli perygl yn haeddu unrhyw newid ffurfiol i'r trefniadau presennol.¹⁰

10. Holodd y Pwyllgor Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd dal angen egluro rolau a chyfrifoldebau. Awgrymodd y ddau fod nifer o wahanol rolau a chyfrifoldebau sy'n codi o ddeddfwriaeth wahanol, ond yn weithredol fod hyn yn gweithio'n dda. Eglurodd Jeremy Parr fod nifer o bartion dan sylw pan ddaw i berchnogaeth asedau ond eu bod yn gwybod am y materion hynny ac yn gweithio gyda'i gilydd i geisio mynd i'r afael â'r materion hynny.¹¹ Awgrymodd Jean Francois Dulong, Swyddog Llifogydd a Dŵr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel a ganlyn:

“I think the roles and responsibilities issue lay around assets. But also there are some areas, for example if you take Newport, where you're going to have a coastal asset going across three or four different land ownerships. Some of these assets are historic, with no record of who owned them, and I think that's where it becomes a bit unclear. This is sometimes where we perhaps could do with a bit more guidance on who should take ownership of these orphaned assets.”¹²

11. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor y bydd yn sicrhau, fel rhan o'i hadolygiad o'r strategaeth genedlaethol, bod cyfrifoldebau'n glir. Eglurodd James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru, ar ôl ystyried y sefyllfa ei fod wedi canfod:

“at a high level, the strategic picture is quite clear; at a kind of intermediate level it gets very complex, but, on the ground, people genuinely do seem to understand that complexity and it doesn't seem to lead to any confusion or any adverse issues. But, in reading the evidence that you've received, and in just

⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraffau 2.16 - 2.17, 2.21, Gorffennaf 2016

⁹ **Ymateb Llywodraeth Cymru** i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Medi 2016

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig: PAC(5)-07-16 P4, 31 Hydref 2016

¹¹ Cofnod y Trafodion, Paragraff 60, 28 Tachwedd 2016

¹² Cofnod y Trafodion, Paragraff 61, 28 Tachwedd 2016

talking to the team and challenging the team on a few things, even greater clarity about roles and responsibilities and particularly assets, I think—... would be welcome.”¹³

12. Cred y Pwyllgor ei bod yn hanfodol i rolau a chyfrifoldebau fod yn fwy eglur er mwyn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn effeithiol. O ystyried nifer y sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli llifogydd ar lawr gwlad, gellid cael dryswch. I'r perwyl hwn, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod manylion clir am rolau a chyfrifoldebau yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth Genedlaethol. Credwn y byddai hyn hefyd yn gwella tryloywder mewn perthynas ag atebolrwydd.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir yn y strategaeth genedlaethol y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol er mwyn sicrhau ei bod yn glir pwy sy'n gyfrifol am gyflawni pob agwedd ar y strategaeth.

Rôl fonitro Cyfoeth Naturiol Cymru

13. O dan adran 18 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010,¹⁴ mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl oruchwylio o ran cyflwyno'r strategaeth llifogydd genedlaethol, ac mae'n gwneud hynny drwy adroddiad bob dwy flynedd i Lywodraeth Cymru. Yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol:

“... oherwydd bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb gweithredol eglur am fodloni amcanion cenedlaethol, mae'n adrodd ar ei weithgareddau a'i chynnydd ei hun yn erbyn y Strategaeth Genedlaethol o dan adran 18 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ond heb fanteision adolygiad annibynnol.”¹⁵

14. Holwyd Cyfoeth Naturiol Cymru gan y Pwyllgor a oedd yn glir ynghylch sut y mae ei rôl o ran monitro gweithrediad y strategaeth genedlaethol yn cyd-fynd â rolau a chyfrifoldebau tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb i'r cwestiwn a oedd yn briodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno adroddiadau ar ei weithgareddau ei hun, dywedodd Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Peryglon Gweithredol a Llifogydel, Cyfoeth Naturiol Cymru:

“... the report is a factual report. The report is statements of fact about what's happened, and that can be used against the objectives of the national strategy to come to judgments. So, we're not making judgments around our performance, we're reporting facts around the performance. But I do accept that, clearly, we are an operating authority and, clearly, we have our own roles and responsibilities.”¹⁶

15. Yn ei ymateb ysgrifenedig,¹⁷ nododd Llywodraeth Cymru fod rôl i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol o bosibl, (a oedd yn y broses o gael ei sefydlu ar adeg y dystiolaeth), o ran darparu adroddiadau annibynnol ar y graddau y cyflawnir y strategaeth genedlaethol. Archwiliodd y Pwyllgor hyn ymhellach mewn tystiolaeth lafar, gyda Matthew Quinn, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru yn nodi:

¹³ Cofnod y Trafodion, Paragraff 67, 28 Tachwedd 2016

¹⁴ [Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010](#)

¹⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraff 2.17, Gorffennaf 2016

¹⁶ Cofnod y Trafodion, Paragraff 70, 28 Tachwedd 2016

¹⁷ [Ymateb Llywodraeth Cymru](#) i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Medi 2016

“... The statutory basis at the moment is provided for in the current Act, so we would need to amend that to be able to do this. So, it is at the moment provided that NRW provide these monitoring reports. But the intention is to involve the committee and potentially to change the statutory basis.”¹⁸

16. Roedd James Morris, Pennaeth y Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Llywodraeth Cymru, yn ailbwysleisio natur ffeithiol yr adroddiadau hyn, ond pwysleisiodd:

“...But we do accept the recommendation in the WAO report that there could be a conflict here, which is why we want to take—we want to ask the new flood and coastal erosion committee to play a role in this review and reporting on flood and national strategy. Whether that takes on the role completely, which would require a change in legislation, or whether they provide a quality assurance and a signing off role, is yet to be decided.”¹⁹

17. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â chasgliad yr Archwilydd Cyffredinol y gallai fod gwrthdaro canfyddedig o ran buddiannau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn llunio adroddiad, er ei fod yn adroddiad ffeithiol ar ei weithgareddau ei hun o ran adran 18 o'r Ddeddf. Hoffem weld mai un o swyddogaethau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd fydd sicrhau ansawdd a rôl cymeradwyo a amlinellir uchod gan James Morris, a chredwn y dylid ffurfioli hyn mewn deddfwriaeth i ddod ag eglurder a sicrwydd i rolau a chyfrifoldebau'r rhai dan sylw.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliant i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i roi rôl oruchwylio ar fonitro'r strategaeth genedlaethol i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol neu gorff arall yn hytrach na dim ond i Gyfoeth Naturiol Cymru.

Cynlluniau rheoli traethlin

18. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yng Nghymru yn llywio penderfyniadau strategol ynghylch amddiffyn yr arfordir, gan gynnwys cynllunio a datblygu ar hyd yr arfordir.

Cynlluniau Rheoli Traethlin

Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn cyflwyno polisiau rheoli arfordirol ar gyfer y 100 mlynedd nesaf mewn cyfnod: 0 i 20 mlynedd, 20 i 50 mlynedd a 50 i 100 mlynedd. Dechreuodd sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli llifogydd ac erydu arfordirol ddiweddarau'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn 2011, yn seiliedig ar ddata gwell am newidiadau i'r arfordir. Mae adolygiad pellach o'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn debygol yn ystod y 5 i 10 mlynedd nesaf. Daw'r dewisiadau polisi a awgrymir yn y cynlluniau o dan bedwar maes cyffredinol:

- Dal y llinell: trwy gynnal neu newid safon yr amddiffyniad;
- Ymestyn y llinell: trwy adeiladu amddiffynfeydd newydd ar ochr y môr o'r amddiffynfeydd gwreiddiol;
- Cilio a reolir: trwy ganiatáu i'r draethlin symud yn ôl a nodi llinell newydd ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol. Mae gan y dull hwn oblygiadau lle y mae'n debygol y bydd amddiffyn y gymuned rhag perygl llifogydd cynyddol yn dod yn anghynaliadwy yn y dyfodol ac efallai y bydd yn rhaid i drigolion symud i ardaloedd lle ceir llai o berygl;

¹⁸ Cofnod y Trafodion, Paragraff 104, 28 Tachwedd 2016

¹⁹ Cofnod y Trafodion, Paragraff 105, 28 Tachwedd 2016

- Dim ymyrraeth weithredol: lle na chynhelir amddiffynfeydd arfordirol mwyach. Bydd angen monitro ac archwilio'r draethlin o hyd. O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, nid oes unrhyw ymrwymiad i sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli peryglon llifogydd ac erydu arfordirol ddarparu na chynnal amddiffynfeydd arfordirol.

Ceir pedwar Cynllun Rheoli Traethlin yng Nghymru gan gynnwys dau, am resymau'n ymwneud â chefnforeg, sy'n gorgyffwrdd â'r ffin â Lloegr.²⁰

19. Yn ei adroddiad, canfu'r Archwilydd Cyffredinol ei bod wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i baratoi Cynlluniau Rheoli Traethlin, a'r strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol, ac mae rhai awdurdodau lleol bellach yn mynd ati'n araf i weithredu'r camau.²¹ Pan holwyd Llywodraeth Cymru am hyn, dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Cynlluniau Rheoli Traethlin i gyd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2014.²² Eglurodd James Morris, o ran eu cyflawni:

“...it's for the local authority or the coastal groups and NRW to work on the shoreline management plans and to work towards the preferred management strategy that's set out in those plans. They're not statutory documents, so they can be challenged at times but, as they have been signed off by Cabinet, by the Ministers, then we'd prefer, we'd expect, that local authorities and NRW follow those shoreline management plans unless local evidence and local knowledge says otherwise.”²³

20. Roedd gan y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch a oedd unrhyw oruchwyliaeth genedlaethol ar gyfer gweithredu'r cynlluniau hyn yn enwedig os nad yw awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau. Dywedodd James Price:

“To a certain extent you open the floodgates of madness in a way if we start to take people's statutory responsibility off them or allow them off the hook by saying, 'We're going to check that you've done what you're meant to do under statutory responsibility'. However, I can equally see the argument that says, 'Well, if someone didn't do it the consequences could be very significant and who therefore is checking?' It's not just flooding, obviously, where we'd have this issue where people have got different statutory responsibilities, but I think the view of the team very strongly at the minute—and when I use the term 'team', it would be the wider kind of flood community as well—is that people are aware of what they're responsible for and are acting responsibly.”²⁴

21. Archwiliodd y Pwyllgor ymhellach sut y caiff gweithredu lleol ei ddeall ar lefel genedlaethol i sicrhau bod digon o oruchwyliaeth. Eglurodd James Price:

“... national plans and strategies, including the one that's coming out next year. It's understood at a national level through better prioritisation of schemes and

²⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Blwch 2: tudalen 9, Gorffennaf 2016

²¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraffau 2.19 - 2.21, Gorffennaf 2016

²² Cofnod y Trafodion, Paragraff 72, 28 Tachwedd 2016

²³ Cofnod y Trafodion, Paragraff 72, 28 Tachwedd 2016

²⁴ Cofnod y Trafodion, Paragraff 83, 28 Tachwedd 2016

better provision of asset registers, which are both being significantly upgraded. But I think the gap that I want to assure myself is, for example, if you looked at coastal erosion—and I think the person who's meant to do this is NRW—do they have a very clear picture—I'm told they do, but I just want to test this one more time—of all of the coast, who's responsible for what, and is it or is it not working.”²⁵

22. Dywedodd James Morris wrth y Pwyllgor fod y Cynlluniau Rheoli Traethlin bellach yn perthyn i'r grwpiau arfordirol ac ar y cyd â phawb sy'n gweithio ar reoli perygl arfordirol.²⁶ Nid yw'n glir i'r Pwyllgor beth yw rôl y grwpiau arfordirol o ran cyflawni camau gweithredu'r cynlluniau hyn. Fel pryder ehangach, credwn y dylai statws a chyfrifoldebau grwpiau arfordirol gael eu hegluro yn unol â'r argymhelliad yn y Cynllun Cyflawni Arfordirol.

23. O ystyried pa mor bwysig yw'r cynlluniau rheoli traethlin o ran llywio'r camau angenrheidiol ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd ar hyd yr arfordir, mae'r Pwyllgor o'r farn bod goruchwyliaeth genedlaethol yn hanfodol. Er nad awgrymir y dylid microreoli, rydym yn croesawu sicrwydd gan Lywodraeth Cymru fod llwybr atebolrwydd clir, yn enwedig ar gyfer y meysydd hynny y tu allan i berchnogaeth gyhoeddus.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gan Lywodraeth Cymru dulliau ar waith i roi sicrwydd bod atebolrwydd ar gyfer pob rhan o'r arfordir, ac ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Traethlin, yn glir a bod y wybodaeth hon yn cael ei chyfleu i bawb sydd â chyfrifoldeb am y morlin.

Cyfleu ymwybyddiaeth o lifogydd

24. Maes arall y mae angen mwy o eglurder yn ei gylch yw rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ymwybyddiaeth o lifogydd. Canfu'r Archwilydd Cyffredinol bod y Rhaglen Ymwybyddiaeth o Lifogydd yn helpu i ymgysylltu ag ystod o gymunedau, ond nad yw'n rhan o'i chwmpas i gyfleu'r negeseuon anodd ynghylch yr ymatebion hirdymor mwyaf priodol i berygl llifogydd yn y dyfodol a geir yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin.²⁷ Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod negeseuon gwahanol am ymwybyddiaeth o lifogydd yn dod gan wahanol sefydliadau. Dywedodd Jean Francois Dulong wrth y Pwyllgor fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi bod yn annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu 'microwefan' neu wefan lle gallai pob awdurdod rheoli perygl roi eu gwybodaeth, ac yna gallai pob preswlydd yng Nghymru ddefnyddio'r wybodaeth honno mewn un fformat, i sicrhau bod gwybodaeth am berygl llifogydd a'r gwahanol rolau a chyfrifoldebau sydd gan gyrrff yn gliriach i gymunedau.²⁸

25. Pan holwyd Llywodraeth Cymru, roedd yn cytuno y byddai un microwefan neu wefan ar gyfer awdurdodau rheoli perygl ar gyfer codi ymwybyddiaeth o lifogydd yn fuddiol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull hwn fel ffordd syml ac effeithiol o gynyddu a gwella dulliau cyfathrebu.²⁹

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid cyflawni i ddatblygu un pwynt gwybodaeth ar gyfer ymwybyddiaeth o

²⁵ Cofnod y Trafodion, Paragraff 85, 28 Tachwedd 2016

²⁶ Cofnod y Trafodion, Paragraff 72, 28 Tachwedd 2016

²⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraff 1.22, Gorffennaf 2016

²⁸ Cofnod y Trafodion, Paragraff 199, 28 Tachwedd 2016

²⁹ Cofnod y Trafodion, Paragraffau 108 - 109, 12 Rhagfyr 2016

lifogydd, fel ‘microwefan’ neu wefan, sy’n cynnwys manylion clir am rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ymwybyddiaeth o lifogydd.

Gweithio Rhanbarthol

26. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o bwyslais ar yr angen am weithio rhanbarthol, yn enwedig yng nghyd-destun diwygio Llywodraeth Leol a’r papur gwyn a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ym mis Ionawr 2017.³⁰ Cred y Pwyllgor fod y dull gweithio hwn yn addas ar gyfer rheoli llifogydd, yn enwedig o ystyried yr ardaloedd eang a gwmpesir gan y gwasanaethau brys a’r byrddau iechyd yng Nghymru, a gan fod swyddogion sifil wrth gefn eisoes yn cydweithio ar lefel ranbarthol ledled Cymru.

27. Archwiliodd y Pwyllgor a fu unrhyw waith ar sail gydweithredol ranbarthol rhwng awdurdodau lleol yn ogystal â’r pum grŵp arfordirol. Eglurodd Jean Francois Dulong fod:

“... three flood risk groups—one in the south-east, one in the south-west and one in the northwest. So, these groups were set up in 2010 when the Flood and Water Management Act was enacted. So, we’ve been, through these groups, looking at sharing good practice. We’ve been developing work programmes for these groups. We’ve got a meeting with the 22 local authorities next week looking at developing regional collaboration across the environment sector, so they’ll be looking at waste, looking at flood-risk management, and looking at what you need to have stronger and more resilient local authorities.”³¹

28. Amlygodd Jean Francois Dulong hefyd nad dim ond yr awdurdodau lleol oedd yn gweithio gyda’i gilydd:

“...and we’ve been developing and undertaking some training programmes between local authorities and Natural Resources Wales officers as well, just making sure that we offer the same schemes, to add to our own duties.”³²

29. Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru a oedd achos dros wneud rheoli perygl llifogydd yn rhywbeth rhanbarthol. Eglurodd James Price fod hyn yn digwydd mewn perthynas â chyd-gymorth (helpu gydag adnoddau rhwng awdurdodau yn ystod achos o lifogydd):

“...authorities club together and provide mutual aid, and Welsh Government is part of that. So, at the lowest level, then, I would see that as an absolute opportunity, and we could do more of that. I would think there is an opportunity to do something at a regional level, yes.”³³

30. Pwysleisiodd James Price hefyd y byddai’n well inni beidio ag edrych ar lifogydd ar wahân ar lefel ranbarthol, ond yn hytrach ystyried swyddogaethau amgylcheddol ehangach, a rhoddodd yr enghraifft a ganlyn:

“As a trunk road authority, the Welsh Government has responsibility for surface water and drainage on the trunk roads; local authorities will have the

³⁰ Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - [Diwygio llywodraeth leol: Cadernid ac adnewyddiad](#) (Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 31 Ionawr 2016)

³¹ Cofnod y Trafodion, Paragraff 177, 28 Tachwedd 2016

³² Cofnod y Trafodion, Paragraff 179, 28 Tachwedd 2016

³³ Cofnod y Trafodion, Paragraff 211, 12 Rhagfyr 2016

same on their roads, and Network Rail will have similar teams out, all being funded by the public purse. There must be an opportunity to bring some of that together as well. I guess the challenge would be making it happen and not driving inefficiencies in doing that, and, secondly, not losing contact with the local communities and having some kind of uber-regional authority that wasn't able to respond.”³⁴

31. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad James Price i ystyried opsiynau ar gyfer gweithio rhanbarthol ac yn cytuno y dylai hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun ehangach swyddogaethau eraill sy'n berthnasol i reoli perygl llifogydd a chwmpasu'r pum ffordd o weithio sy'n rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy - ystyried yr hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu, cymryd rhan. O ystyried y strategaeth a fabwysiadwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i hyrwyddo gweithio rhanbarthol, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cymru arwain ar y gwaith hwn.

32. Cred y Pwyllgor fod hwn yn faes a fyddai'n elwa o ddull rhanbarthol gan nad yw'r arfordir yn syrthio'n daclus o fewn ffiniau awdurdodau lleol, ac y byddai'r penderfyniadau anodd sydd eu hangen yn elwa o gael eu gwneud mewn modd cyson ar draws ardaloedd mwy. Credwn y dylai dull gweithio rhanbarthol helpu i gyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir uchod, ond hefyd y dylai helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer sicrhau manteision lluosog e.e. adfywio neu effeithio ar swyddi.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol ar sail ranbarthol ac yn cyflwyno adroddiad erbyn mis Ionawr 2018.

³⁴ Cofnod y Trafodion, Paragraff 211, 12 Rhagfyr 2016

03. Dealltwriaeth o Berygl

Cilio a reolir

33. Un o'r opsiynau polisi a nodir yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin i ymdrin â llifogydd ac erydu arfordirol yw cilio a reolir, y cyfeirir ato hefyd fel adlinio a reolir, sef:

“Cilio a reolir: trwy ganiatáu i'r draethlin symud yn ôl a nodi llinell newydd ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol. Mae gan y dull hwn oblygiadau lle y mae'n debygol y bydd amddiffyn y gymuned rhag perygl llifogydd cynyddol yn dod yn anghynaliadwy yn y dyfodol ac efallai y bydd yn rhaid i drigolion symud i ardaloedd lle ceir llai o berygl.”³⁵

34. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn nodi'r cymunedau sydd â dyfodol anghynaliadwy, a lle mae angen cilio a reolir. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at enghraifft y Friog, Gwynedd lle y nodwyd bod cilio a reolir yn angenrheidiol ac mae'n amlinellu'r camau cynnar sydd wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion sydd ynghlwm â hyn.³⁶ Er i gilio a reolir gael ei nodi fel opsiwn yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod y rhanddeiliaid yn teimlo nad oedd preswylwyr arfordirol yn gyffredinol yn deall goblygiadau'r Cynlluniau mewn ardaloedd lle mai adlinio a reolir, neu ddim rhagor o fuddsoddiad i gynnal amddiffynfeydd arfordirol, yw'r dull a awgrymir yn y cynlluniau hyn.³⁷

35. Cafodd y mater o sut i fynd i'r afael â chilio a reolir, a'r angen am arweinyddiaeth ei amlygu gyntaf yn adroddiad 2009 Swyddfa Archwilio Cymru, a ddaeth i'r casgliad a ganlyn:

“...the Assembly Government is not providing sufficient strategic leadership to prepare for the increasingly pressing coastal management challenges. In particular, the Assembly Government has not made the strategic direction for the New Approaches Programme clear to organisations that it expects to deliver the changes.”³⁸

36. Yn ei adroddiad dilynol yn 2016, canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru yn dal i fod heb nodi opsiynau er mwyn helpu cynghorau i baratoi cymunedau ar gyfer cilio a reolir. Daeth i'r casgliad fod hyn yn broblem arbennig gan fod rhai awdurdodau lleol, yn absenoldeb arweiniad strategol cenedlaethol clir, yn ariannu gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned i ddatblygu cynlluniau rheoli newid heb ddarlun realistig o'r opsiynau sydd ar gael a'u goblygiadau cyfreithiol ac ariannol.³⁹

37. I fynd i'r afael â hyn, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu opsiynau o'r fath, gan ystyried y trefniadau cyfreithiol ac ariannol angenrheidiol i symud pobl ac asedau i ffwrdd a sut y mae'n cyfleu goblygiadau ei ddull yn seiliedig ar berygl i'r cyhoedd.

³⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Blwch 2:Tudalen 9, Gorffennaf 2016

³⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Blwch 5:Tudalen 28, Gorffennaf 2016

³⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraff 1.2o, Gorffennaf 2016

³⁸ Swyddfa Archwilio Cymru, [Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru](#), Hydref 2009

³⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraffau 2.7 - 2.8, Gorffennaf 2016

38. Er i Lywodraeth Cymru nodi, yn 2009 a 2016, ei bod yn derbyn yr angen am gyfeiriad mewn perthynas â chilio a reolir, roedd yr ymateb a roddwyd i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol yn canolbwyntio ar gynhyrchu pecyn cymorth addasu arfordirol ac ymddengys nad oedd yn darparu'r eglurder a awgrymwyd o ran yr opsiynau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi er mwyn hwyluso trefniadau cilio a reolir. Dywedodd Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru sydd yn y sefyllfa orau i ymgysylltu â chymunedau lleol ar faterion lleol o ran perygl llifogydd ac erydu arfordirol ac mai ei dull gweithredu strategol oedd cefnogi awdurdodau rheoli perygl yn y gweithgaredd hwn ond nid pennu beth ddylai camau lleol fod.⁴⁰

39. Mae'r Pwyllgor yn nodi canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwneud peth ymchwil i gynlluniau prynu-i-osod lle gallai preswylwyr mewn ardaloedd a nodir ar gyfer cilio a reolir werthu eu cartref i Lywodraeth Cymru ac yna ei brydlesu yn ôl a pharhau i fyw yno. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu a ddylid mabwysiadu cynllun o'r fath nac wedi ystyried ei oblygiadau ariannol.⁴¹

40. Mewn gohebiaeth ysgrifenedig, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddysgu oddi wrth eraill a gweithio gyda hwy mewn perthynas â chilio a reolir, gan nodi bod hyn yn her gyffredin ac mai prin yw'r enghreifftiau, hyd yma, o strategaethau cenedlaethol sydd wedi'u datblygu'n dda ac sy'n mynd y tu hwnt i gyfathrebu i ddarpariaeth gyfreithiol ac ariannol ar gyfer adleoli pobl ac asedau.⁴²

41. Mynegodd y Pwyllgor bryderon sylweddol ynghylch y diffyg arweiniad yn y maes hwn gyda'r tystion o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Tynnodd y ddau dyst sylw at enghreifftiau o gamau sy'n cael eu cymryd i ymgysylltu â chymunedau, yn enwedig yn y Friog (Gwynedd).

42. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nad oes dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol i dalu am eiddo mewn perygl, na chymryd unrhyw gamau fel prynu gorfodol. Nododd y Gymdeithas hefyd fod ymarferwyr ar lawr gwlad sy'n ymdrin â pherygl llifogydd yn tueddu i fod yn beirianwyr sifil a bod angen sgiliau gwahanol i ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau mewn perygl. Mae Jeremy Parr yn nodi'r angen am:

“...guidance and, ultimately, a strategy around what the approaches will be. I think Welsh Government are putting quite a lot of emphasis on the example that is happening in Fairbourne and the research, which includes looking at buy-to-let and purchase of properties.”⁴³

43. Pwysleisiodd hefyd fod hwn yn fater anodd iawn mynd i'r afael ag ef.

“...it's a difficult area, for various reasons. I think the number of parties that are involved, the nature of the issue—it would benefit from clearer guidance, but again, I think Welsh Government would say that I'm not here to speak for Welsh Government. I think they would say they're working on it through the

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, Paragraff 72, 12 Rhagfyr 2016

⁴¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraffau 2.7-2.8, Gorffennaf 2016

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig: PAC(5)-07-16 P4, 31 Hydref 2016

⁴³ Cofnod y Trafodion, Paragraff 87, 28 Tachwedd 2016

Fairbourne project and through the research that they've commissioned there, for example.”⁴⁴

44. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ei fod yn faes anodd a heriol iawn. Fodd bynnag, mae gennym bryderon mawr ynghylch y diffyg brys ac arweinyddiaeth yn y maes hwn. Gwelsom fod llawer o'r dystiolaeth a ddyfynnir inni, megis yr enghraifft o'r Friog, yn adweithiol iawn ei natur, a chredwn fod angen strategaeth a chyfeiriad clir er mwyn helpu i gynllunio'n rhagweithiol. Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oes fawr ddim datblygiadau wedi bod, os o gwbl, er i'r angen am arweiniad mewn perthynas ag adlinio a reolir gael ei argymhell am y tro cyntaf wyth mlynedd yn ôl, a phan gafodd James Price ei herio ynghylch hyn, dywedodd:

“This is an area that we're working on now. Looking at Wales and the areas where managed retreat might be appropriate, it's not a significant issue for Wales, certainly in terms of the number of people affected. But of course, if you're one of those people who might be affected, it will be significant for you. We're doing quite a lot of work at the minute and I would expect us to be much clearer in terms of where the Welsh Government's policy position is over the next 12 to 24 months.”⁴⁵

45. Mewn tystiolaeth lafar, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ei bod yn bwysig ymgysylltu'n gynnar â chymunedau sydd mewn perygl, hyd yn oed os yw'r cynlluniau rheoli traethlin yn awgrymu efallai na fydd y peryglon yn cael eu gwireddu am beth amser.⁴⁶ Cred y Pwyllgor fod hyn yn berthnasol ar draws y sbectrwm ar gyfer y rheini sy'n gyfrifol, o gynrychiolwyr etholedig i staff awdurdodau lleol a staff Cyfoeth Naturiol Cymru, a dylid ystyried sut i uwchsgilio'r rheini sydd â chyfrifoldeb dros gyfleu'r negeseuon hyn.

46. Pan holwyd Llywodraeth Cymru ynghylch ymgysylltu â chymunedau, dywedodd James Price:

“Now, when you consider that that's talking about an issue [managed retreat] that's going to manifest itself in 50 or 100 years' time, I think that's a reasonable timeline to get ourselves in a very good position and not to make things up as we go along.”⁴⁷

47. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod hwn yn ddatganiad hunanfodlon iawn, sy'n nodweddiadol o'r problemau gyda rheoli llifogydd ac erydu arfordirol ac sydd wedi ein harwain i fynegi pryderon difrifol ynghylch cyflymder y gweithredu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n wyth mlynedd ers y tro cyntaf i Lywodraeth Cymru dderbyn yr argymhelliad i ddarparu'r arweiniad sydd ei angen yn y maes hwn, ac ymddengys mai ychydig iawn sydd wedi cael ei wneud.

48. Rydym yn arbennig o bryderus am y broses o liniaru perygl o fewn Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod y cymerwyd camau i ddeall peryglon llifogydd ac erydu o fewn Llywodraeth Cymru gyda Chanolfan Monitro Arfordir Cymru, y Cynlluniau Rheoli Traethlin a chofrestrau/mynegai perygl sy'n dod i'r amlwg. Er hynny, mae'n hanfodol bod camau i fynd i'r afael â'r peryglon yn cael eu cymryd. Er y nodir mai ymhen 50 i 100 mlynedd y gwireddir y perygl a ragwelir i gymunedau a nodir mewn cynlluniau rheoli traethlin lle nad yw'n gynaliadwy amddiffyn y gymuned rhag perygl llifogydd sy'n

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, Paragraff 92, 28 Tachwedd 2016

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, Paragraff 276, 12 Rhagfyr 2016

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, Paragraffau 32 - 33, 28 Tachwedd 2016

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, Paragraff 276, 12 Rhagfyr 2016

cynyddu'n raddol, ni fyddai ond yn cymryd ychydig o achosion o lifogydd difrifol i'r raddfa amser leihau'n sylweddol. At hynny, cred y Pwyllgor nad yw'r amserlen o 50 mlynedd, mewn termau real ac ymarferol yn hir iawn i sicrhau y gall camau gweithredu a chymorth priodol gael ei roi. Mae adlinio a reolir yn cynnwys symud ac ailsefydlu cymunedau, sy'n cael effaith sylfaenol ar fywydau pobl, ond sydd hefyd yn rhywbeth na ellir ei wneud dros gyfnod byr. Credwn ei bod yn hanfodol cynllunio a pharatoi ochr yn ochr â chyfathrebu clir a sensitif i sicrhau bod cymunedau yr effeithir arnynt yn ymgysylltu â'r broses gan sicrhau cyfnod pontio mor ddiraffferth â phosibl.

49. Er ein bod yn derbyn tystiolaeth gan James Price y dylem ddisgwyl rhywfaint o eglurder o ran safbwynt polisi Llywodraeth Cymru dros y 12 i 24 mis nesaf, nid ydym yn argyhoeddedig fod hyn yn ddigonol, o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers yr adroddiad gwreiddiol a'r cynnydd araf hyd yma.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, o fewn y 12 i 24 mis nesaf, lunio safbwynt polisi sy'n nodi ystod o opsiynau ar gyfer adlinio a reolir.

Rydym yn disgwyl i'r safbwynt polisi hwn:

- ystyried cyfansoddiad gwahanol rannau o Gymru, ac nad yw un ateb yn addas i bawb;
- rhoi ystyriaeth i enghreifftiau ledled y DU ac yn rhyngwladol;
- ystyried y set sgiliau sydd ei hangen i gyfathrebu â chymunedau yr effeithir arnynt; a
- rhoi ystyriaeth i'r sail statudol ar gyfer unrhyw ddatblygiadau.

Rheoli gwybodaeth a rhannu arferion da

Cronfa Ddata Asedau Cyffredin

50. O ystyried yr ystod eang o bartïon sy'n ymwneud â llifogydd arfordirol, mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth dda a chywir am yr asedau a'u cyflwr. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol:

“Prin yw'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o ran gwella'r dull cenedlaethol o reoli asedau arfordirol, gan fethu ei therfynau amser ei hun yn y Strategaeth Genedlaethol i ddatblygu cofrestr o asedau amddiffyn rhag llifogydd arfordirol erbyn 2014, ac i sefydlu rhaglen o waith cynnal a chadw rheolaidd. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain prosiect ar amddiffynfeydd arfordirol ar gyfer Cynllun Cyflawni'r Adolygiad Arfordirol, a chynhyrchodd adroddiad ddiwedd 2015 ar opsiynau ar gyfer set ddata amddiffynfeydd cenedlaethol. Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynghorau, mae cynnydd yn cael ei wneud erbyn hyn i gyfuno data gan Cyfoeth Naturiol Cymru â data gan gynghorau.”⁴⁸

51. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi anghysondebau yn ansawdd y wybodaeth a gedwir gan awdurdodau lleol am eu hasedau amddiffyn yr arfordir, er bod peth meddalwedd rheoli asedau ar y cyd ar gael. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor y byddai'n hoffi gweld y gwaith ar y gronfa ddata asedau cyffredin yn cael ei gynnwys yn nogfen strategaeth genedlaethol

⁴⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraff 2.45, Gorffennaf 2016

2017-18 Llywodraeth Cymru. Dywedodd Jeremy Parr fod angen i hyn gael ei gynnwys gan ei fod yn bwysig cael:

“...good information about assets, you know where they are and what condition they’re in. We’ve done a lot of good work with the Welsh Local Government Association and local authorities, and Network Rail as well, to get standardised ways of looking at assets and the condition of assets and trying to work towards a common asset database. It’s something that is easily said but quite hard to do, if you can imagine the different organisations that are involved, but we’re making good progress in that regard.”⁴⁹

52. Mewn tystiolaeth lafar, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod problemau sy’n codi o ddiffyg arbenigedd wedi’i gwneud yn anodd i rai cynghorau ddefnyddio meddalwedd benodol ond mae problemau wedi bod hefyd gyda’r gallu i adolygu cyflwr yr asedau ar lawr gwlad.⁵⁰ Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn tynnu sylw at y camau a gymerwyd i hyfforddi staff mewn dull cyffredin o arolygu asedau a sicrhau bod gwybodaeth mewn fformat tebyg, hyd yn oed os yw systemau meddalwedd gwahanol yn cael eu defnyddio.⁵¹

53. Mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch sut y caiff tîrffeddiannwyr preifat a sefydliadau eraill eu dwyn i gyfrif mewn perthynas â’u cyfrifoldebau ar gyfer cynnal eu hasedau. Eglurodd James Price:

“In terms of people like National Trust, Network Rail or the Crown Estate, they’re not risk-management authorities under the Flood and Water Management Act 2010. So, where they have areas of land or walls along the coast, for example, they have expectations of ‘Upkeep that wall’ or ‘Maintain that in a decent condition’, but that’s not as a risk-management authority. If that area was subjected to a risk of flooding from the sea, then NRW would come along and work with them on how to manage that risk more effectively. But there are tools in place to designate features on third-party land as a flood feature or a flood risk management asset, and then that work can be done by the local authority or NRW and charged back to the landowner. But that doesn’t always really need to happen, because, where you’ve got a real risk to a town or a major piece of infrastructure, usually the local authority or NRW own an asset along the front of that coastline or along a river, so they’ll be managing that risk effectively themselves.”⁵²

54. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu set ddata genedlaethol cyn diwedd blwyddyn ariannol 2016-17, i gyfrannu at y gwaith cynllunio ar gyfer y rhaglen gyfalaf newydd. Pan holodd y Pwyllgor a fyddai’r set ddata hon yn barod cyn diwedd 2016-17, dywedodd Matthew Quinn fod y gwaith ar y gronfa ddata asedau cenedlaethol i fod i gael ei gwblhau, ac y dylai ddod â chofrestrau amrywiol i fformat cyffredin.⁵³

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, Paragraff 47, 28 Tachwedd 2016

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, Paragraff 183, 28 Tachwedd 2016

⁵¹ Cofnod y Trafodion, Paragraff 185, 28 Tachwedd 2016

⁵² Cofnod y Trafodion, Paragraff 266, 12 Rhagfyr 2016

⁵³ Cofnod y Trafodion, Paragraff 268, 12 Rhagfyr 2016

55. Hoffai'r Pwyllgor weld cronfa ddata o asedau cyffredin yn cael ei datblygu cyn gynted â phosibl. Credwn y bydd o gymorth i reoli'r rhyngweithio â chyrff preifat neu sefydliadau perthnasol eraill megis Ystâd y Goron a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â pherygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol

56. Yn ogystal â llunio cofrestr o asedau ar y cyd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol. Yn ystod proses yr Archwilydd Cyffredinol o gasglu tystiolaeth, mynegodd y rhanddeiliaid bryderon y gallai'r mynegai hwn fod yn rhy gymhleth ac yn anodd i'r cyhoedd ei ddeall.

57. Pan holwyd James Morris ynghylch y Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol, eglurodd fod cymhlethdodau fel:

“...the risk from sea flooding is a completely different type of risk from surface water flooding. Whereas both will be horrendous for the people who suffer the effects of the flooding, there's one that will happen far less frequently but bring much greater risk to life. So, it's about how you count that and quantify that against more frequent low-level flooding. And it's a difficult area. What we intend to use now is NRW's tool called the communities-at-risk register, which in turn is based upon the national flood-risk assessment. The previous gap in using that register as a flood-risk index, bringing all the different sources together, was that it didn't take into account surface water flood risk. We've asked NRW to go and bring that in and to try and calculate that and merge it in with the methodology. They have done that and now we're just about to share that updated communities-at-risk register and the GIS data behind it with all local authorities. So, they'll be able to use the same type of methodology as NRW.”⁵⁴

58. Disgrifiodd Jeremy Parr y fframwaith rheoli perygl a blaenoriaethu a ddefnyddir yn Cyfoeth Naturiol Cymru, ac y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei fabwysiadu trwy Gymru gyfan ar gyfer pob un o'r awdurdodau rheoli perygl:

“As risk-management authorities we all work on a risk basis, so, within Natural Resources Wales for example, we have an understanding of risk across the whole of Wales and we prioritise that. There is something that is referred to in the reports as the communities at risk register, which is a prioritisation of flood risk, and it's prioritised on the basis of risk to life because that's what Welsh Government requires us to do. We use that as a tool to target where the investment goes. It doesn't mean all the investment goes to No. 1. It means that we look at what the risk is there and what interventions can take place to manage it. So, it's not all about building defences, as we've talked about; there are other things that can happen at the same time.”⁵⁵

59. Amlygodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod angen i wleidyddion lleol fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch rheoli perygl llifogydd oherwydd:

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, Paragraff 231, 12 Rhagfyr 2016

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, Paragraff 132, 28 Tachwedd 2016

“... local priorities sometimes don’t compare to national priorities in terms of the communities-at-risk register. We stressed the need for all local politicians to be part of the decision making. On top of that we set up a consortium of public and academia bodies to develop over the next two years a mapping exercise of the highest risk areas around the coast in terms of coastal erosion.”⁵⁶

60. Aeth James Morris i’r afael â phryderon Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan amlinellu:

“What we will have with the updated communities-at-risk register will be a level playing field. But it’s not the only tool. It’s still going to potentially have gaps. You can’t do everything just using a series of statistics on risk and modelling. We’ll still require local authorities to use their local evidence, local knowledge and their own common sense on actually where they feel the risk needs investigating.”⁵⁷

61. Hoffai’r Pwyllgor weld set ddata genedlaethol ar gyfer perygl llifogydd yn weithredol cyn gynted â phosibl. Mae gennym rai pryderon fod hyn wedi cael ei amlygu fel maes lle y ceir anhawster gan randdeiliaid, ac rydym yn awyddus i sicrhau nad yw hyn yn cael ei ddefnyddio fel rheswm dros ddiffyg gweithredu. Bydd y wybodaeth hon yn helpu i sicrhau y bydd pawb sy’n ymwneud â llifogydd yn gweithio ac yn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth gyson. Bydd hefyd yn helpu i gefnogi penderfyniadau ar flaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol.

Argymhelliad 7. Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol syml, sy’n hawdd ei ddeall, ac yn sicrhau y caiff ei weithredu, sy’n golygu bod yr holl beryglon o ran llifogydd ac erydu yn cael eu hystyried gyda’i gilydd fel rhestr wedi’i blaenoriaethu.

Dylai’r Mynegai hwn roi ystyriaeth benodol i:

- ardaloedd sy’n arbennig o sensitif i lifogydd (fel aberoedd);
- cael ei lywio gan ddata ar y peryglon gan Ganolfan Monitro Arfordir Cymru (a data dibynadwy eraill); a
- dylai hefyd ystyried seilwaith hanfodol, yn unol â chanfyddiadau adolygiad Pitt.

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, Paragraff 136, 28 Tachwedd 2016

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, Paragraff 231, 12 Rhagfyr 2016

04. Capasiti ac Adnoddau ar gyfer Llifogydd

Trefniadau ariannu

62. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £219 miliwn rhwng 2010-11 a 2016-17, gyda £120 miliwn ohono wedi'i ddyrannu i gynlluniau arfordirol (roedd £25.4 miliwn ohono'n arian Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop). At hynny, yn ystod y cyfnod hwn roedd £162 miliwn o gyllid refeniw ar gyfer perygl llifogydd ac erydu arfordirol, er bod Llywodraeth Cymru yn methu â dadansoddi faint o'r cyllid hwn oedd ar gyfer llifogydd arfordirol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cyllid wedi cynnal buddsoddiad mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ystod y cyfnod presennol o galedi.

63. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn disgrifio sut y mae Llywodraeth Cymru yn newid y ffordd y mae'n dyrannu cyllid drwy ddwy raglen newydd:

a) bydd y Rhaglen Fuddsoddi mewn Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn dyrannu cyllid i Gyfoeth Naturiol Cymru a chynghorau yn seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol.

b) bydd y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol yn darparu cyllid cyfalaf i gynorthwyo cynlluniau amddiffyn arfordirol cynghorau a ddarperir rhwng 2018-19 a 2020-21.⁵⁸

64. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, wrth adolygu'r strategaeth genedlaethol, weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer gweithgareddau refeniw megis cynnal a chadw, gwaith monitro arfordirol ac ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys ystyried gwariant y cyngor ar reoli perygl llifogydd drwy'r Grant Refeniw Amgylcheddol Sengl newydd.⁵⁹

65. Yn ystod tystiolaeth lafar, pwysleisiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yr angen am fwy o gynllunio hirdymor ac ailbwysleisio ar gyllid refeniw ac nid cyfalaf yn unig. Eglurodd Jeremy Parr fod angen cyllid hirdymor er mwyn gallu cynllunio:

“The shoreline management plans, for example, talk about the 100-year time frame. I think that's one of the challenges that we've had as operating organisations: relatively short-term budgets and a relative focus on capital funding, rather than revenue funding, and we need both. And we need both over the medium and longer term.”⁶⁰

66. Ychwanegodd Jean Francois Dulong:

“... I think the way the funding is allocated, the revenue funding, doesn't allow for that long-term resilience that's needed to tackle flood-risk management.”⁶¹

67. Roedd y ddau sefydliad hefyd yn awyddus i bwysleisio pwysigrwydd cyllid refeniw priodol fel yr eglurodd Jeremy Parr:

⁵⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraff 6, Gorffennaf 2016

⁵⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Argymhelliad 1c, Gorffennaf 2016

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, Paragraff 39, 28 Tachwedd 2016

⁶¹ Cofnod y Trafodion, Paragraff 40, 28 Tachwedd 2016

“...it’s important that those defences are maintained, for example, and the maintenance money typically comes from the revenue budget. And all of the other activities in terms of forecasting, warning and raising flood awareness, a lot of those—well, all of those—are revenue funded. So I think we’re as concerned about revenue funding as capital funding.”⁶²

68. Ychwanegodd Jean Francois Dulong:

“...I think also the revenue funding enables those officers on the ground to develop the schemes; if we haven’t got the officers on the ground, then it’s quite limited in terms of the amount of work that can be done in delivering the capital programme.”⁶³

69. Er mwyn mynd i’r afael â’r pryderon hyn, nododd y tystion y byddent am i’r mater hwn fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac am gael ymrwymiad hirdymor gan Lywodraeth Cymru i’r awdurdodau lleol ac efallai i Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn darparu’r adnoddau angenrheidiol.⁶⁴ Eglurodd Jeremy Parr fod cyllid yn yr hirdymor yn angenrheidiol oherwydd natur hirdymor y prosiectau, ac y gallai’r ymagwedd hon sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Ychwanegodd:

“I think what we would like is longer term funding, and longer term funding doesn’t mean two or three years; longer term funding means a picture for the next five, 10 years and potentially beyond that. Clearly, in the realms of political terms of office, that’s quite difficult, but it is possible to a degree. In England, there was an agreement between DEFRA and the Environment Agency for a seven-year time period, I think it was, for a period of investment over that time period. So, you know, it is possible.”⁶⁵

70. Pan holwyd James Price ynghylch y cydbwysedd gwariant rhwng cyfalaf a refeniw, dywedodd:

“Obviously, we cannot build and carry on to build to an extent that you can never maintain. But this is something, if you look back in the literature on infrastructure, that people have been worrying about for 25 years. At the minute, I think our view is that we’re building at a rate that is reasonable, and the amount of money that goes into Natural Resources Wales is also reasonable in terms of maintaining the assets that we have, and that it’s for local authorities to determine the amount of money that they should be spending out of their budget, which, as you rightly point out, comes from the single environmental grant, or some of it does.”⁶⁶

71. Aeth yn ei flaen i awgrymu bod cyfleoedd posibl i arbed mwy o arian trwy weithio’n fwy effeithlon mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw:

⁶² Cofnod y Trafodion, Paragraff 42, 28 Tachwedd 2016

⁶³ Cofnod y Trafodion, Paragraff 43, 28 Tachwedd 2016

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, Paragraff 118, 28 Tachwedd 2016

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, Paragraff 138, 28 Tachwedd 2016

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, Paragraff 169, 12 Rhagfyr 2016

“In terms of trunk road maintenance, drainage, NRW-type schemes, local authority schemes. There are different people maintaining many of these different things.”⁶⁷

72. Ychwanegodd James Price:

“It might be worthy of a separate, wider inquiry. There are ways around it—you can capitalise a lot of maintenance, legitimately, provided you’re providing an upgrade, or it’s a significant improvement. Possibly, there would be ways of managing revenue and capital better on a UK-wide basis. This won’t just be an issue for Welsh Government; this will be an issue for the UK at the minute as well. But my assessment is that we are—and I mean this in a positive sense—just about managing, in terms of the revenue side of maintenance of capital schemes. So, we’re not running into significant difficulty, but we are in a position where we’re having to drive efficiencies year in, year out. And I think that’s a good thing, but there will come a point where you maximise those efficiencies, and you can’t make any more. And I guess that’s the point at which you have to say, either you have to find more revenue or you have to scale back a bit.”⁶⁸

73. Byddai dealltwriaeth gliriach o’r adnoddau sydd ar gael a’r gallu i gynllunio’n strategol dros gyfnod o amser yn dod â mwy o sicrwydd ac yn gwella’r gwaith o reoli peryglon llifogydd ac erydu arfordirol. Mae hyn yn bwysig, o ystyried egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sef sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion y tymor byr â’r anghenion i ddiogelu’r gallu hefyd i ddiwallu anghenion yn yr hirdymor. Er bod Llywodraeth Cymru o bosibl yn asesu ei bod *fwy neu lai yn ymdopi* ar hyn o bryd, bydd mwy o seilwaith ac asedau i’w cynnal ar ôl i’r rhaglen rheoli perygl arfordirol ddechrau, ac mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn barod ar gyfer hyn. Cred y Pwyllgor ei bod yn anodd, heb y radd hon o sicrwydd, cael darlun clir o’r gwario sydd ei angen yn y dyfodol a manteisio i’r eithaf ar unrhyw arbedion effeithlonrwydd posibl.

Argymhelliad 8. Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi’n glir sut y bydd yn cydbwyso buddsoddiad mewn modd effeithiol er mwyn cefnogi’r gwaith o gynnal buddsoddiad cyfalaf ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y dyfodol.

Y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol

74. Mae’r rhan fwyaf o’r cyllid a ddyrennir i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol wedi bod yn gyllid cyfalaf a ddyrannwyd drwy’r grant amddiffyn yr arfordir. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu pob un o’r cynlluniau y mae cynghorau wedi gwneud cais amdanynt o dan y grant ac nid yw wedi gorfod cymharu peryglon i wneud penderfyniad ar flaenoriaethu cyllid i un cynllun dros un arall.⁶⁹

75. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn dangos y bydd angen buddsoddiad o £20 miliwn yn codi i £30 miliwn ar gynlluniau arfordirol bob blwyddyn hyd at ddiwedd y ganrif hon, ac yn arbennig i

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, Paragraff 170, 12 Rhagfyr 2016

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, Paragraff 186, 12 Rhagfyr 2016

⁶⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraff 2.52, Gorffennaf 2016

wrthsefyll effeithiau cynyddol newid hinsawdd.⁷⁰ Er bod y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol newydd yn helpu i ddiwallu'r angen hwn yn 2020-21, nid yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhannau o'i strategaeth ariannu hirdymor yn llawn eto nac wedi helpu cynghorau i sicrhau opsiynau ar gyfer cyllid allanol. Mae rhai cynghorau wedi nodi partneriaid ariannu posibl yn eu ceisiadau cychwynnol ar gyfer y rhaglen newydd, ond nid yw'r rhan fwyaf yn cynnwys fawr o fanylion ynglŷn â ffynonellau cyllid amgen ar hyn o bryd.⁷¹

76. Bydd y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol yn parhau o 2018-19 hyd 2020-21 er mwyn cefnogi cynghorau i gyflawni prosiectau yn eu cynlluniau rheoli traethlin. Bydd hon yn rhaglen £150 miliwn. O fewn y £150 miliwn, bydd angen i awdurdodau lleol gyfrannu 25 y cant o gost cynlluniau cyfalaf, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu'r 75 y cant sy'n weddill.

77. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol, yn ei adroddiad, yn adleisio pryderon a godwyd gan rai swyddogion awdurdodau lleol ynghylch gallu awdurdodau lleol i ddarparu arian cyfatebol i brosiectau. Yn ei thystiolaeth lafar, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod cynghorau wedi cyflwyno tua 42 o gynlluniau ar gyfer cyllid posibl o dan y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol. Nododd y Gymdeithas fod yr amserlenni ar gyfer datblygu prosiectau a sicrhau'r ymrwymiad ariannu o 25 y cant angenrheidiol yn her i rai cynghorau oherwydd cyfyngiadau o ran capasiti.⁷²

78. Mae gan y Pwyllgor bryderon sylweddol ynghylch y gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu ymrwymiad ariannol o 25 y cant. Ceir galwadau sylweddol ar gyllidebau awdurdodau lleol, yn arbennig gyda gofynion seilwaith eraill fel ysgolion yr 21^{ain} ganrif. At hynny, ceir cwestiynau ynghylch y swm o arian a fydd ar gael i awdurdodau lleol ei wario ar ofynion anstatudol. Felly rydym yn pryderu y bydd hwn yn rhwystr mawr i ariannu'r prosiectau hyn. Rydym hefyd yn pryderu bod y gofyniad ychwanegol hwn yn faich anghymesur ar yr awdurdodau lleol hynny sydd â llawer iawn o forlin.

79. Yn ychwanegol at bryderon ynghylch y ffaith y bydd yn anodd i awdurdodau lleol godi'r cyfraniad o 25 y cant, mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr amserlen y mae'n seiliedig arno - nid yw'n eglur iawn beth fydd yn digwydd ar ôl 2021, a gall hyn gael effaith ar y cynlluniau sy'n cael eu rhoi gerbron a'r dull gweithio a ddefnyddir gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn adleisio pryderon y Pwyllgor ynghylch cyllid refeniw dros y tymor hwy. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch y cyfnod ar gyfer hyn, gallai ganiatáu ar gyfer cynllunio mwy strategol gan awdurdodau lleol, yn hytrach na rhuthro i gadw at y cyfnod hwn o dair blynedd.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, drwy'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru, yn nodi'r cynlluniau ar gyfer ariannu prosiectau rheoli perygl arfordirol ar ôl 2021.

Capasiti o ran adnoddau dynol

80. Daeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod cyfyngiadau o ran capasiti yn nhîm rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Llywodraeth Cymru ac mewn awdurdodau lleol wedi achosi

⁷⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraffau 2.22-2.24, Gorffennaf 2016

⁷¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Paragraffau 2.25-2.35, Gorffennaf 2016

⁷² Cofnod y Trafodion, Paragraff 141, 28 Tachwedd 2016

oedi a bygwth tanseilio'r gallu i reoli perygl yn yr hirdymor, meddwl yn strategol a chyflawni, o ran y dull o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.⁷³

81. Mewn ymateb i argymhelliad Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru, cynhaliodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru archwiliad sgiliau yn 2015 a oedd yn amlygu pryderon ynghylch y ffaith nad oedd cynghorau yn cael staff newydd yn lle staff sy'n ymddeol, a bod strwythur oedran y rhai sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd yn y maes hwn yn golygu bod 20 y cant o'r gweithlu perthnasol yn debygol o ymddeol o fewn y deng mlynedd nesaf.

82. Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch y gwahanol heriau o ran staffio, sy'n bygwth cadernid Cyfoeth Naturiol Cymru a gallu cynghorau i ymateb i unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â llifogydd. Roedd Jeremy Parr yn cytuno:

“...it's becoming more challenging with the budgets that we've had and the resources that we've got. I think we have professional, experienced, trained staff, who do a fantastic job. I'm sure everybody would agree. As to the floods that we had last winter in Wales, whilst not as severe as some of those in England, people in north Wales in particular will remember an extremely wet December and an extremely wet January, throughout the whole of Wales. Our resources do start to get stretched when there are a number of events across the whole of Wales and widespread flooding. It is something that is an area of concern.”⁷⁴

83. Aeth Jeremy Parr yn ei flaen i awgrymu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdopi ar hyn o bryd, gan dynnu sylw at y ffaith bod 280 o gyflogeion amser llawn ledled Cymru gyfan, ond y cânt eu cyflogi i gyflawni ystod eang o weithgareddau a bod llawer iawn o bwyslais ar bethau y mae angen ymdrin â hwy ar unwaith. Ychwanegodd efallai bod angen mwy o ffocws ar ymagwedd strategol, ac ar gynllunio ar gyfer olyniaeth i'r staff hyn a fydd yn ymddeol.⁷⁵ Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn adleisio'r pryderon hyn.⁷⁶

84. Mewn ymateb i bryderon y Pwyllgor y gallai cyfyngiadau o ran adnoddau effeithio ar gyflymder darparu o fewn Llywodraeth Cymru, ac ynghylch capasiti a gwynwch y sefydliadau cyflawni i ymateb i achosion o lifogydd a datblygu prosiectau tymor hwy, sicrhodd James Price y Pwyllgor drwy ddweud:

“...if there are any resource constraints that are causing problems—I may regret saying this—I'll fix them within the wider group. So, there should not be any Welsh Government resource issues in terms of people within teams causing any problems in the future.”⁷⁷

85. Er hynny, roedd yn teimlo, o gofio bod lefelau staffio Cyfoeth Naturiol Cymru o 280 o bobl yn gweithio ar wahanol ardaloedd o lifogydd wedi bod yn gyson a pharhaus yn yr hirdymor:

“...that would lead me to suggest that Welsh Government and NRW are in a position to be able to both deal with any issues that occur and maintain the

⁷³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Argymhelliad 1, Gorffennaf 2016

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, Paragraff 151, 28 Tachwedd 2016

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, Paragraff 155, 28 Tachwedd 2016

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, Paragraff 156, 28 Tachwedd 2016

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, Paragraff 202, 12 Rhagfyr 2016

progress at a strategic level, and local authorities have a statutory responsibility to do that. And the conversations that I've had suggest that they are indeed geared up to do that.”⁷⁸

86. Yn y Trydydd Cynulliad, mynegodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y pryd bryderon ynghylch y gallu i ddarparu, gan argymhell yn ei adroddiad, Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2010, bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod digon o adnoddau, gan gynnwys adnoddau ariannol a'r gallu technegol a rheoli prosiect angenrheidiol ar gael.⁷⁹ Nid ydym yn argyhoeddedig fod hyn wedi cael sylw. Nid oedd y Pwyllgor yn argyhoeddedig, o'r atebion a gafwyd, fod digon yn cael ei wneud o ran cynllunio'r gweithlu, a sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chynnal o fewn y sefydliadau allweddol. Tra'n cydnabod y bu lefelau staffio cyson o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer llifogydd, a'r dystiolaeth fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdopi ar hyn o bryd, credwn y bydd galw am fwy o staff medrus i ymdrin â'r materion anodd iawn y bydd angen mynd i'r afael â hwy yn y dyfodol, ac felly y dylai fod yn rhan o waith cynllunio strategol Llywodraeth Cymru. Credwn y dylai ein cyfeiriad cynharach at archwilio opsiynau ar gyfer mwy o weithio rhanbarthol roi sylw i'r manteision a ddôl yn sgil sicrhau bod arbenigedd yn cael ei gynnal a'i rannu ar draws awdurdodau.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad bob dwy flynedd er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r lefelau staffio angenrheidiol ar gael o fewn Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Awdurdodau Lleol i gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Genedlaethol.

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, Paragraff 205, 12 Rhagfyr 2016

⁷⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru, Mai 2010](#)

Atodiad – Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn:

www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15048

Dyddiad	Enw a sefydliad
28 Tachwedd 2016	Jeremy Parr - Cyfoeth Naturiol Cymru Jean-Francois Dulong - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
12 Rhagfyr 2016	James Price, Llywodraeth Cymru Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru James Morris, Llywodraeth Cymru